Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** | | **GENERAL GRANTS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2017 at 2.00 o'r gloch** | | **WEDNESDAY, 12 JULY, 2017 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mairwen Hughes 01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust** | **T.Ll. Hughes MBE** |
| **Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust** | **R.O. Jones** |

**Lewis Davies**
**R Dew**
**Glyn Haynes**
**Vaughan Hughes**
**Llinos Medi Huws**
**Richard Owain Jones**
**Shaun Redmond**
**Margaret M. Roberts**
**Dylan Rees**
**P S Rogers**

**R H A G L E N**

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**2** **ETHOLIAD IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 13 Hydref, 2016.

**5** **GRANTIAU BLYNYDDOL 2017/18** (Tudalennau 3 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Jeffrey M.Evans (Chair)<br>Lewis Davies (Vice-Chair)<br><br>R Dew, Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cymhorthydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr. T. Ll. Hughes fuddiant personol mewn perthynas â chais 02 (Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspurs) a ni chymerodd ran yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2016.

**3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2016/17**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar Orffennaf 13eg, 2016, wedi penderfynu gohirio ystyried 8 cais er mwyn casglu gwybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor. Roedd manylion am y ceisiadau ynghlwm i'r adroddiad yn Atodiad A a B.

Dywedodd y Trosorydd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn a gynhaliwyd ar Fedi 13eg, 2016 wedi penderfynu dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymerdwyo ceisiadau am Grantiau Bach ac felly ni fydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn ond nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau cyffredinol o hyn ymlaen.

**Yn dilyn trafodaethau ar bob cais PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2016/17 fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| **01 3D KIDS** | I alluogi gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer Plant ac Oedolion (0-25) a'u Teuluoedd | **£2,100** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 02 | **Clwb Pêl-droed Holyhead Hotspur** | Adnewyddu'r ardal i wylwyr | **£3,900**<br><br>*(yn ddibynnol bod prydles y tir wedi'i chytuno â'r perchnogion newydd)* |
| 06 | **Parti Meibion Bara Brith** | Arian i greu CD | **Tynnwyd y cais yn ôl** |
| 15 | **ADLAIS** | Cefnogaeth i ariannu cyngerdd Pen-blwydd y côr yn 25 | **DIM**<br><br>*(ddim yn gymwys)* |
| 17 | **PANTRI 6** | Arian ar gyfer arwyddion, peintio, gostwng y nenfwd, inswleiddio, inswleiddio'r waliau, gwres canolog gosod toiled ar gyfer yr anabl, tudalen we a chyflog un swydd | **DIM**<br><br>*(ni ymatebodd y sefydliad i'r cynnig gan y Swyddogion i drafod y cais yn unol â chais y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol)* |
| 20 | **Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd** | Diogelu'r Rhandiroedd Cymunedol yn unol â gofynion y Brydles ac amodau Iechyd a Diogelwch | **£1,850** |

*(Ymatalodd Llinos M. Huws ei phleidlais oherwydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir)*

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | **Cymdeithas Ardal Chwarae Llanfaes** | Offer i greu ardal chwarae | **£4,984** |
| 36 | **Clwb Hwylio Brenhinol Ynys Môn** | Cyfraniad tuag at brynu cwch ddiogelwch | **£8,000** |

**Cais a adawyd allan o'r adroddiad gwreiddiol.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 | **Cwmni Cemaes Cyf.** | Gosod ffenestri newydd, gosod gwydr dwbl mewn drws allanol, rheiliau o flaen yr adeilad i atal cwympiadau a ffensys | **£7,664** |

**Mr. Jeff M. Evans**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **12 GORFFENNAF 2017** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2017/18** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **AMLINELLU'R CEISIADAU GRANT AM 2017/18** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU AM 2017/18** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddir ffurflen gais safonol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â'r Gronfa Degwm. Y dyddiad olaf derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 oedd 12 Mai 2017.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau gan Swyddogaeth Adnoddau y Cyngor Sir, maent yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau eraill sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn, nid yr Ymddiriedolaeth hon.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

**5.** Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2017, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2016 i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol i gymeradwyo ceisiadau Grantiau Bychan a, felly, dim ond rhaid nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ei wneud o hyn ymlaen. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grant Cyfleusterau'r Gymuned a Chwareon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost gymwys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**6.** Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd, cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol, ond, mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r dyfarniad grant yn cael ei wneud gan y Pwyllgor yma. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa'r Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i Gronfa'r Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad C.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r gost dilys, hyd at uchafswm o £8,000. Byddai hyn yn costio cyfanswm o £46,171 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn.

**9.** Yn ei gyfarfod ar 24 Chwefror 2017, ystyriwyd nifer o geisiadau grantiau mawr gan y Pwyllgor Adfywio, a gwnaed penderfyniad i anfon nifer o geisiadau ymlaen i gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn. Gweler y ceisiadau yn Atodiad B. Mae pedwar o'r ceisiadau yn anghymwys a gweler Atodiad B am y rhesymau. Gellir ystyried y pedwar arall a, phetai'r pedwar yn cael eu derbyn, £23,279 byddai'r cyfanswm. Felly, £69,470 byddai cyfanswm y gyllideb am 2017/18.

**10.** Byddai dilyn yr argymhellion uchod yn golygu gwario cyfanswm o £69,470.

| | **ARFAETHEDIG 2017/18** | | **GWIRIONEDDOL 2016/17** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **Nifer** | **£** | **Nifer** |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (Atodiad A) | 46,191 | 15 | 85,996 | 23 |
| Anfonwyd o'r Grantiau Mawr | 23,279 | 4 | | |
| | **69,470** | **19** | **85,996** | **23** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion yn yr Atodiadau.

**10. Y PENDERFYNIADAU SYDD EU HANGEN**

**(a)** Ystyried cymeradwyo'r symiau a argymhellir yn Atodiad A.
**(b)** Ystyried cymeradwyo'r ceisiadau cymwys yn Atodiad B.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD –**
**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **05 GORFFENNAF 2017**

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad Name of Organisation | Pwrpas y Cais Purpose of Application | Cost Cost (£) | Cais am Request (£) | Sylwadau Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **001** | **Clwb Pêl-droed Bro Goronwy Football Club** | Uwchraddio ac adnewyddu cawodydd yn yr ystafelloedd newid./ Update and refurbish showers in the changing rooms. | 3,400 | 3,000 | Ddim yn deilwng oherwydd bod y Clwb wedi derbyn grant yn 2015/16./ Not eligible as the club received a grant in 2015/16. | **DIM/NIL** |
| **002** | **Côr Cymunedol Llanddona Community Choir** | I gynorthwyo'r Côr i gynhyrchu cryno ddisg./ To assist the Choir to produce a compact disc. | £1,994 | £1,994 | Ni fydd y cryno ddisg yn cael ei werthu am elw. / The cd will not be sold for profit. | **£1,395**<br>Yn amodol ar dderbyn polisïau ac amcangyfrifon Gan ei fod yn waith arbennigol, dim ond un amcangyfrif wedi ei gyflwyno./<br>Subject to receipt of policies and estimates. As this is a specialist area, only one estimate submitted. |
| **003** | **Cymdeithas Morisiaid Môn Society** | Cyhoeddi cylchgrawn "Tlysau'r hen Oesoedd". Datblygu gwefan gyfoes.<br>Cyhoeddi llyfr poblogaidd / cael stondin ar gae Eisteddfod Genedlaethol Môn./ Publish Magazine "Tlysau'r hen Oesoedd". Contemporary web development. Publish a popular book / have a stall at the National Eisteddfod. | £6,680 | £4,680 | Yn hanesyddol wedi derbyn grant blynyddol o'r Gronfa Degwm. Wedi gwneud cais i'r Ymddiriedolaeth eleni gan ei bod yn debygol na fydd cyllid ar gael o'r Cronfa Degwm eleni./ Historically have received an annual grant from the Church Act Fund. They have applied to the Trust this year because of the likelihood that there will not be funding available from the Church Act Fund this year. | **£4,676**<br>Yn amodol ar dderbyn amcangyfrifon./<br>Subject to receipt of estimates. |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost<br>(£) | Cais am<br><br>Request<br>(£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **004** | **Cymdeithas Hamdden Benllech a'r cylch/ Benllech & District Recreational Association** | Adnewyddu'r Cwrt Tennis./ Refurbishment of Tennis Court. | £48,000 | £40,000 | Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys am ysytriaeth./ Schemes in excess of £30,000 are not eligible for consideration. | **DIM/NIL** |
| **005** | **Clwb Bowlio Beaumaris Beaumaris Bowling Club** | I wella cynnal a chadw'r lawnt fowlio drwy brynu casetiau peiriant torri gwair ychwanegol./ To improve the upkeep of the bowling green by purchasing additional mower cassettes. | £1,850 | £1,600 | | **£1,295** |
| **006** | **Clwb Henoed Llanfaethlu Pensioners Club** | Cynorthwyo gyda chostau cludiant i fynd â phobl oedrannus allan ar ymweliadau./ Assist with transport costs to take elderly persons out on visits . | £1,000 | £500 | Ddim digon o wybodaeth i gefnogi'r cais ar hyn o bryd, wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gweithgareddau a'r cyfraniadau o'r cyfranogwyr./ Insufficient information to support the application at present, have asked for more information regarding the activities and contribution from participants. | **£500**<br>Yn amodol ar dderbyn mwy o wybodaeth./ Subject to receipt of further information. |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **007** | **Creatasmile** | Darparu sesiynau hwyl i'r teulu ar gyfer plant ag awtistiaeth / gdd / aur ac anghenion ychwanegol a'u teulu agos/To provide family fun sessions for children with autism/gdd /gold and additional needs and their immediate family. | £2,400 | £2,400 | | **£1,750** |
| **009** | **Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Llanbedrgoch/ Parents and Friends Association of Ysgol Llanbedrgoch** | Adeiladu Tŷ Crwn traddodiadol./<br>Build a Traditional Round House. | £4,500 | £4,000 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ysgolion felly ddim yn gymwys oherwydd byddai'n fantais i'r ysgol./ The Trust does not support schools therefore not eligible due to being a benefit to the school. | **DIM/NIL** |
| **010** | **Grŵp Cymynedol AMLWCH Community Group** | Cais am gefnogaeth ariannol ar gyfer nifer o fentrau./ To seek financial support for several initiatives. | £8,000 | £8,000 | Y cyllid ar gyfer tri maes o fewn y dref sef:-<br>Noson Tân Gwyllt (£1,000)<br>Gwastadu tir ar gyfer rhandiroedd (£6,000)<br>Ras rafftiau (£1,000)<br>Nid yw'r grŵp wedi cyflwyno amcangyfrifon na gwybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth y tir ar gyfer y rhandir./<br>Funding would be used for three areas within the town:-<br>Bonfire (£1,000)<br>Flatten land for Allotment (£6,000)<br>Raft Run (£1,000)<br>The group has not submitted estimates or information regarding ownership of the land for the allotment. | **£4,200**<br>70% o'r amcangyfrifon ar gyfer y rhandir yn unig gan nad yw'r ddwy elfen arall yn gymwys. Yn amodol ar dderbyn amcangyfrifon a phrawf o berchnogaeth neu les ar y tir. / 70% of estimates for allotment element only as the other two elements are not eligible. Subject to receipt of estimates and proof of ownership or lease of the land. |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **011** | **Gwasanaeth Ysgolion Williams Mathias Cyf.** | Cais am arian ar gyfer Cwrs Haf 2017 i ddisgyblion rhwng 10-18 oed ar draws Gwynedd a Môn/. Application for funding towards the cost of the 2017 Summer Course for pupils aged 10-18 years old throughout Gwynedd and Anglesey. | £11,055 | £2,860 | Mae'r Gwasanaeth yn derbyn arian gan yr Awdurdod a mae'r gweithgareddau yn cynnwys ardal Gwynedd felly ddim yn gymwys. / The Service receives funding from the Authority and is not eligible as the activities also include the Gwynedd area. | **DIM/ NIL** |
| **012** | **Age Well** | Darparu cefnogaeth weinyddol i'r Bwrdd Heneiddio'n Dda a'r Canolfannau Trefi./ Provide admin support to the Board of Age Well and the Town Centres. | £8,000 | £5,000 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg, felly, ddim yn gymwys./ The Trust does not support running costs, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |
| **013** | **Cyngor Cymuned Bryngwran Community Council** | Ffensio ychwanegol i gae chwarae Bryngwran./ Additional Fencing at Bryngwran Playing Field. | £3,607 | £3,107 | | **£2,524** |
| **014** | **Clwb Pêl- droed y Fali / Valley Football club** | I brynu pyst gôl symudol./ To purchase mobile goal posts. | £1,899 | £1,699 | | **£1,329**<br>Yn amodol ar dderbyn cyfansoddiad, polisïau a chyfrifon./ Subject to receipt of constitution, policies and accounts. |
| **015** | **Fforwm Anabledd Taran Cyf** | Cynorthwyo gyda cyflogau staff./ To assist with staff salaries. | £8,235 | £6,615 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg, felly, ddim yn gymwys./ The Trust does not support running costs, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **016** | **Trigolion Llanddaniel Fab Residents** | Arian i ailddatblygu adeilad cymunedol y pentref. / Funding to redevelop the village community building. | £16,000 | £8,000 | | **£8,000** |
| **018** | **MS Society Gwynedd a Môn** | I ariannu dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer pobl a MS./ To fund exercise classes for people with MS. | £3,500 | £1,000 | Wedi derbyn grant gan yr Ymddiriedolaeth yn 2015/16 felly, ddim yn gymwys./ Received a grant from the Trust in 2015/16, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |
| **019** | **Cyfeillion Swtan** | Atgyweirio tô gwellt y bwthyn./ Repairs to the thatched roof of the cottage. | £2,208 | £2,208 | Prynodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y tir yn 1998 fel rhan o'u prosiect llwybr yr arfordir. Prydleswyd cragen yr adeilad i Gyfeillion Swtan a bydd y les yn dod i ben yn 2020. Nid oes unrhyw reswm i dybio na fydd yr YG yn adnewyddu neu'n ymestyn y brydles gan nad ydynt wedi mynegi unrhyw ddiddordeb mewn ymgymryd â menter mor fach./ The National Trust purchased the land in 1998 as part of their coastal footpath project. They leased the shell of the cottage to Cyfeillion Swtan and the lease will expire in 2020. There is no reason to suppose that the NT will not renew or extend the lease to Cyfeillion Swtan as they have expressed no interest in taking on such a small enterprise. | **£1,545** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost<br>(£) | Cais am<br><br>Request<br>(£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir<br>Sum Suggested<br>(£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **020** | **Canolfan Cynghori Ynys Môn/Citizen's Advice** | Arian i gyflogi Swyddog Hyfforddiant pwrpasol./ Fund to employ a dedicated Training Officer | £24,537 | £24,537 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau rhedeg, felly, ddim yn gymwys./ The Trust does not support running costs, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |
| **022** | **Canolfan Llanfairynghornwy Centre** | Atgyweirio'r Ganolfan./ Repairs to the Centre. | £12,420 | £11,000 | Mae un o'r amcangyfrifon sydd wedi eu cyflwyno gyda'r cais yn aneglur./ One of the estimates submitted with the application is unclear. | **£8,000**<br>yn amodol ar dderbyn 2ail amcangyfrif clir./<br>Subject to receipt of 2nd clear estimate. |
| **023** | **Neuadd Gymuned Penrhoslligwy Community Hall** | Tarmacio'r Maes Parcio./ Tarmac the Car Park. | £3,000 | £3,000 | Wedi tynnu'r cais yn ôl./ Have withdrawn the application. | **DIM/NIL** |
| **024** | **Clwb Bowlio Caergybi/ Holyhead Bowling Club** | Adnewyddu nenfwd y Tŷ Clwb./ Repair Clubhouse ceiling. | £2,250 | £2,150 | | **£1,575** |
| **025** | **Neuadd yr Eglwys a Chymuned Moelfre Church and Community Hall** | Gosod llwyfan symudol, prynu byrddau a taflunydd./ Install demountable stage, purchase tables and projector. | £5,597 | £5,597 | | **£3,918** |

| Cyf. Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **026** | **Cymdeithas Tir Glas** | Cyhoeddi llyfr coffaol a creu gwefan./ Publish a commemorative book and create a website. | £5,435 | £5,435 | Wrth i'r Gymdeithas ddynesu at ddathlu 50 mlynedd, diben y cais yw cynorthwyo wrth ddathlu'r cyflawniad trwy gyhoeddi llyfr coffaol a chreu gwefan./ As the Society approaches celebrating 50 years, the purpose of the application is to aid in celebrating the achievement through publishing a commemorative book and creating a website. | **£3,804** |
| **028** | **Pwyllgor y Celfyddydau Gweledol Eisteddfod Genedlaethol Ynys Mộn Visual Arts Committee** | Cyllido darn o waith celf cyhoeddus gan artist lleol i'w arddangos yn yr Eisteddfod ac yna yn Oriel Ynys Môn. / Financing of public work of art by local artist to be displayed at the Eisteddfod and then in Oriel Ynys Môn. | £12,000 | £8,350 | Mae'r cais yn ymddangos fel cyllido gwaith unigolyn, felly, ddim yn gymwys./ The application seems to be for the benefit of an individual, therefore, is not eligible. | **DIM/NIL** |
| **038** | **Neuadd Cymunedol SYM Llaneilian W.I Community Hall** | Darparu cyfleusterau dŵr poeth i olchi dwylo yn y gegin a'r toiledau. Toiled newydd./ Provide hot water hand washing facilities in the kitchen and toilets. Replacement toilet. | £1,500 | £1,500 | Cyflwynwyd y cais cyn i'r Mudiad dderbyn amcangyfrifon a oedd yn uwch na'r gost a amcangyfrifwyd ar y ffurflen./ The application was submitted prior to receiving the estimates, which were higher than the estimated cost on the form. | **£1,680** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **029** | **Age Well** | Costau rhedeg./ Running costs | £20,500 | £20,500 | Nid yw costau rhedeg yn gymwys. Wedi gofyn i'r Mudiad am gais newydd (gweler cais 012) /. Running costs are not eligible for funding and have requested a new application from the Organisation (see application number 012). | **DIM/NIL** |
| **030** | **Clwb Peldroed Bae Cemaes/Cemaes Bay Football Club** | Uwchraddio llifoleuadau./ Upgrade floodlights. | £48,000 | £8,000 | Ddim yn gymwys gan fod y Clwb wedi derbyn grant o £8,000 am lifoleuadau yn 2016/17./ Not eligible as the Club received a grant of £8,000 in 2016/17 for floodlights. | **DIM/NIL** |
| **031** | **Cwmni Cymunedol Amlwch Cyf** | | | | Roedd y cais gwreiddiol yn cynnwys elfennau ddim yn gymwys am grant, megis costau rhedeg. Fodd bynnag roedd cais am £3,000 i brynu offer ond heb gynnwys prisiau na manylion./ The original application included elements not eligible for funding, such as running costs. However there was a request for £3,000 towards the purchase of equipment but did not include details or prices.. | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide** |
| **032** | **Clwb Peldroed Llandegfan Football Club** | Uwchraddio cyfleusterau./ Upgrade Facilities. | £10,000 | £8,300 | Un amcangyfrif wedi ei gyflwyno gyda'r cais./ One estimate submitted with the application. | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide** |

| Cyf.<br><br>Ref. | Enw'r Mudiad<br><br>Name of Organisation | Pwrpas y Cais<br><br>Purpose of Application | Cost<br><br>Cost (£) | Cais am<br><br>Request (£) | Sylwadau<br><br>Remarks | Swm a Awgrymir Sum Suggested (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **033** | **Coleg Menai (gyda Cyngor Tref Biwmaris yn ei flodau)/ Coleg Menai (with Beaumaris Town Council in bloom)** | Creu gardd goffa./ Create memorial garden. | £8,828 | £8,050 | Er bod prisiau wedi eu cynnwys gyda'r cais, nid yw'n glir beth yw gwir gost y cynllun./ Although costings have been included with the application, it is unclear as to the true cost of the scheme. | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide** |
| **034** | **Clwb Criced Porthaethwy/ Menai Bridge Cricket Club** | Prynnu rholer newydd./ Purchase a new roller. | £15,199 | £13,599 | Mae'r cais yn gyflawn i bwrpas y Pwyllgor hwn./ The application is complete for the purpose of this Committee. | **Pwyllgor i benderfynu/ Committee to decide** |
| **035** | **Samariaid/ Samaritans** | Costau Rhedeg./ Running costs. | £11,000 | £11,000 | Nid yw costau rhedeg yn gymwys./ Running costs are not eligible. | **DIM/NIL** |
| **036** | **Ynys Môn Gymnastics Club** | Offer newydd ar gyfer ehangu y Clwb./ New equipment for expansion for the Club. | £13,332 | £10,532 | Wedi derbyn grant yn 2016/17, felly, ddim yn gymwys./ Recieved a grant in 2016/17, therefore, not eligible. | **DIM/NIL** |

**YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned**

## 1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH

Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**a)** Dim ond dan un category neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**b)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwys neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**c)** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am yr offer hwn.

**ch)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**d)** Rhaid amgáu o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**dd)** Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad diwethaf a fydd yn derbyn cais.

**e)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

## 2. GRANTIAU CYFALAF

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa os yw'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff cais am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bod modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

**2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNED**

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn ymarferol.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Cenedlaethol, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir, a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir.

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliad blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

## 3. MUDIADAU CHWARAEON

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth hefo costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

## 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;

- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd, rhaid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

**5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED**

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymuned.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**ADOLYGWYD EBRILL 2015**

This page is intentionally left blank